# Polisi Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe 2025-2026

Mae Prifysgol Abertawe'n ymgymryd ag ymchwil ac addysgu arloesol sydd â goblygiadau dwys o ran dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang a'i stiwardiaeth. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys prosiectau di-garbon a fydd yn chwarae rhan sylweddol wrth sbarduno'r Deyrnas Unedig i fabwysiadu systemau ynni di-garbon, cyfreithiau amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy - yn ogystal â'r seicoleg amgylcheddol sy'n angenrheidiol er mwyn deall sut mae ymddygiadau dynol yn chwarae rôl mewn stiwardiaeth amgylcheddol. Mae'r gweithgareddau ymchwil ac addysgu hyn yn gyfraniad mawr gan y brifysgol at fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd byd-eang.

Gyda throsiant blynyddol sy'n fwy na £300 miliwn, a chymuned o dros 20,000 o fyfyrwyr a 3,500 o staff, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i reoli ein gweithrediadau mewn modd cynaliadwy a chyfrifol er budd pawb. Rydym wedi ymrwymo i niwtraliaeth garbon yn ein hadeiladau a'n cerbydlu erbyn 2035 fel rhan o strategaeth Ystadau'r Brifysgol (yn amodol ar gynaliadwyedd ariannol a ffynonellau cyllido) gan gydnabod yr argyfwng hinsawdd sy'n wynebu cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Bydd y Polisi Cynaliadwyedd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a phawb sydd â diddordeb, a bydd yn cael ei rannu â holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

## Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymo i'r canlynol:

1. Lleiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau'r Brifysgol.
2. Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai sylfaenol (gan gynnwys tanwyddau ffosil, dŵr ac ynni).
3. Annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i deithio mewn modd llesol a chynaliadwy.
4. Arddangos ymagweddau cynaliadwy at yr amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu a chynnal a chadw.
5. Hyrwyddo amrywiaeth fiolegol a dod yn brifysgol ag ymagwedd gadarnhaol at natur.
6. Lleiafu lefelau cynhyrchu gwastraff a dargyfeirio gwastraff at ddiben adfer ynni a hyrwyddo economi gylchol.
7. Gwarchod yr amgylchedd drwy atal llygredd a thrwy ymrwymiadau penodol eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y sefydliad.
8. Gwreiddio ymagweddau cynaliadwy a moesegol ym mhrosesau caffael nwyddau a gwasanaethau'r Brifysgol.
9. Hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ESD) a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs) trwy gwricwlwm ffurfiol ac anffurfiol.
10. Cefnogi lefelau uwch o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau cynaliadwy ar draws y brifysgol a'r gymuned ehangach.
11. Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol a'i chymunedau.
12. Addasu i newid yn yr hinsawdd gan sicrhau gwydnwch a pharhad gweithrediadau a gwasanaethau.
13. Cyflawni ein rhwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol.
14. Pennu, monitro ac adolygu amcanion perthnasol ac arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.

**Arwyddwyd ar ran yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth:**

**Enw a swydd:** Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor
**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2025